Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 29.04.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYLLID: Cynllun Datblygu Garddwriaeth

Mae'r cynllun Datblygu Garddwriaeth dewisol yn gynllun grant Cyfalaf sydd ar gael i gynhyrchwyr garddwriaethol masnachol sydd ohoni yng Nghymru i ddatblygu eu busnesau drwy fuddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg newydd, a'u galluogi i ehangu cynhyrchiant yn gynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch. Bydd y cyfnod ymgeisio yn cau ar 27 Mai 2022. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3rYQhxC

# CYLLID: Grant Twf Digidol

Mae’r cystadleuaeth Grant Twf Digidol gwerth £12.09 miliwn wedi ei lansio gan Lywodraeth y DU i hybu twf busnesau technoleg arloesol newydd a’r rhai sy’n tyfu, a bydd yn canolbwyntio ar agor mynediad at hyfforddiant a chyngor ar sgiliau, a darparu gwasanaethau cymorth i’r sector digidol a thechnoleg dros ddwy flynedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/digital-growth-grant

# CYLLID: Pub is the Hub 2022 – Grantiau Cymunedol

Mae grantiau hyd at £3,000 ar gael o Gronfa Gwasanaethau Cymunedol Pub is the Hub i alluogi perchnogion tafarndai gwledig, trwyddedeion a chymunedau lleol i gydweithio i helpu i gefnogi anghenion cymunedau lleol drwy ddefnyddio tafarndai i gynnig gwasanaeth newydd neu i gynnig gwasanaeth sydd eisoes wedi’i golli. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.pubisthehub.org.uk/community-services-fund/

# DIGWYDDIAD: Syrjeri Busnesau Gwynedd 4 Mai 2022

Cynhelir Syrjeri Busnesau Gwynedd, fydd yn cynnwys cymorth a chyngor busnes, rhwydweithio wyneb yn wyneb a chyflwyniadau busnesau arloesol lleol, yn M-SParc #ArYLôn Caernarfon yn 18 Stryd y Plas ar 4 Mai 2022 (10:00am-4:00pm). Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3LtpotJ

# IECHYD & DIOGELWCH: Gwybodaeth diweddaraf gan HSE

Mae canllawiau wedi’u diweddaru gan yr HSE ynghylch defnyddio ysgolion ac ysgolion plygu yn ddiogel yn y gwaith i’w

gweld ar:
https://www.hse.gov.uk/work-at-height/ladders/index.htm

Gellir dod o hyd i gyngor ar sut i helpu i leihau'r risg o anaf trydanol ac i adnoddau defnyddiol y gallwch eu cyrchu ar wefan diogelwch trydanol yn y gwaith yr HSE ar:
https://www.hse.gov.uk/electricity/index.htm

Mae'r Prosiect Burnt Chef wedi ymuno ag ymgyrch Working Minds yr HSE i helpu gweithwyr proffesiynol ym maes lletygarwch, sy'n wynebu oriau gwrthgymdeithasol hir, amodau amgylcheddol anodd a phwysau i berfformio'n ddyddiol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar:
https://workright.campaign.gov.uk/the-burnt-chef-project-joins-working-minds-campaign/

## TRETH: Canllawiau CThEM ar dalu cildyrnau'n electronig

Mae canllawiau wedi'u diweddaru gan CThEM ar drin cildyrnau, arian rhodd, taliadau gwasanaeth a throncs o ran treth i gynnwys manylion ar sut i ymdrin â thaliadau electronig ar gael ar:

https://bit.ly/3vochnP

## TRAFNIDIAETH: Rhagarchebu lle parcio ym Mhen y Pass

Mae'r system rhagarchebu parcio ym Mhen y Pass bellach yn weithredol, sy'n golygu mai dim ond y rhai sydd â chadarnhad o archeb ymlaen llaw fydd yn cael mynediad i faes parcio Pen y Pass (mae'r meysydd parcio eraill ar gyfer llwybrau'r Wyddfa yn gweithredu fel arfer). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://eryri.llyw.cymru/ymweld/yr-wyddfa/parcio-ar-gyfer-yr-wyddfa/

## DIGWYDDIAD: Hyfforddi'r Fasnach Deithio – Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, 4 Mai 2022

Bydd gweminar ar-lein am ddim Croeso Cymru, fydd yn amlinellu sut y gall y Fasnach Deithio gynnig cyfleoedd allweddol i fusnesau dyfu drwy agor i farchnadoedd newydd, yn cael ei gynnal ar 4 Mai 2022. Am fyw o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3MD3eFw

## DIOGELWCH A HYLENDID BWYD: Galw cynhyrchion Kinder yn ôl

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn annog manwerthwyr i sicrhau eu bod wedi tynnu cynhyrchion Kinder sy'n gysylltiedig ag achosion o salmonela oddi ar eu silffoedd. Credir bod y cynhyrchion wedi achosi i nifer sylweddol o blant fynd yn ddifrifol wael, gyda llawer o achosion hysbys yn ddigon gwael i orfod mynd i'r ysbyty i gael triniaeth. Mae manylion llawn am yr hysbysiad galw cynnyrch yn ôl ar gael ar:

https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/alert/fsa-prin-25-2022-update-2

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru